

Llawdriniaeth sylweddol

“Nid oes dim gwahaniaeth rhwng Iddew a Groegwr. Yr un Arglwydd sydd i bawb, a chyfoeth ei ras i bawb sy'n galw arno. (adn. 12)

Beth am ddarllen Rhufeiniaid 10:1–13 ac yna myfyrio

Un o'r sylwadau a wneuthum ddoe oedd fod amddiffyniad Steffan gerbron y Sanhedrin yn un o'r areithiau mwyaf pendant a wnaed erioed gan ddilynwr Crist yr adeg honno. Mae'r Dr E. Stanley Jones yn disgrifio yr araith hon fel llawdriniaeth sylweddol. Gellid dehongli ei sylwadau fel rhai dadleuol ond rwyf am eu dyfynnu beth bynnag: “Roedd araith Steffan yn llawdriniaeth sylweddol oherwydd fe dorrodd y mudiad Cristnogol yn rhydd o ddillad claddu Iddewiaeth gan ddweud: ‘Gollwng nhw, a gad iddyn nhw fynd – caniatâ i'r mudiad i fod yn un achubol byd eang.’” I fyny i'r amser hwn yr oedd yna berygl y buasai Cristnogaeth yn ddim mwy na sect o fewn Iddewiaeth. Ond bellach, mae geiriau pendant Steffan yn torri caethiwed Iddewiaeth ac mae'r mudiad Cristnogol yn dod yn rhydd ar ei ben ei hun o dan awdurdod Duw. Fe gostiodd yr araith fywyd Steffan. Ef oedd y merthyr cyntaf.

Pan mae'r Dr Stanley Jones yn sôn am ganiatáu i'r mudiad Cristnogol dorri yn rhydd o'i ddillad claddu Iddewig, nid yw am awgrymu ei fod am dorri'n rhydd o'i wreiddiau mewn Iddewiaeth. Yn hytrach, yr unig beth a wna yw torri'n rhydd o'r mowld Iddewig. Mae araith Steffan felly yn taro nodyn newydd gan dystio fod Duw am fyw, nid mewn temlau o waith llaw, ond yng nghalonau dynion a gwagedd. Roedd yr hyn a ddywedodd Steffan yn ymddangos fel petai yn torri ar draws popeth yr oedd y Cristnogion yma wedi ei ddysgu yn eu cefndir Iddewig. Yr hyn y mae yn ei wneud yw cyhoeddi fod gyda Duw drefn newydd a dirgelwch newydd i'w ddatguddio. Nid fod Duw yn troi Iddewon yn genedl-ddynion, nac ychwaith yn troi cenedl-ddynion yn Iddewon, ond yn hytrach yn creu creadigaeth newydd o bobl, dynion a gwagedd, oedd yng Nghrist.

Mae'n amlwg na fu yna dderbyniad cynnes iawn i hyn ymhlith pobl draddodiadol, ond dyma ogoniant yr Efengyl. Trwy'r groes, mae Duw wedi creu cymdeithas newydd gyda'r pwyslais bellach nid ar hynafiaethau ond yn hytrach ar ein safle yng Nghrist.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Actau 11:1–18; 15:1–31; Effes.2:10–22; Col.2:6–7; 3:1–11

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pa furiau y mae'r groes wedi ei chwalu?
2. Ble mae gwreiddiau y greadigaeth newydd?

Gweddi

O Dad, sut medraf ddiolch i ti yn ddigonol am dy waith ar y groes ac am atgyfodiad dy Fab. Nid yw fy hynafiaethau i yn bwysig bellach. Yr hyn sydd yn bwysig yw i ble rydw i'n mynd? Boed anrhydedd a gogoniant i ti ac i'th enw annwyl. Amen.